Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 17 Ionawr 2018

**Paratowyd ar gyfer y Pwyllgor Materion Allanol**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Manon George**
Dyddiad: **Ionawr 2018**
Rhif Papur: **18-005**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6219**
: **Manon.George@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 17 Ionawr 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Thrafodaethau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ers 15 Tachwedd 2017. Ers llunio'r fersiwn ddiwethaf o'r adroddiad hwn, daeth y Cyngor Ewropeaidd i'r casgliad yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2017 bod cynnydd digonol wedi'i wneud i ganiatáu i'r trafodaethau symud ymlaen o drafod telerau'r Cytundeb Ymadael i drafod telerau cyfnod trosiannol a'r berthynas â'r UE yn y dyfodol.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau, y dogfennau a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd;
- Dadansoddiad o'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ("y Pwyllgor"); a
- Chrynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Ar 20 Hydref 2017, yn dilyn yr hyn a oedd fod yn rownd derfynol y negodiadau o ran cam cyntaf y trafodaethau ar ymadael, daeth y **Cyngor Ewropeaidd i'r casgliad** nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud i ganiatáu i drafodaethau ddechrau ar gytundebau trosiannol posibl a'r berthynas yn y dyfodol. O ganlyniad, cynhaliwyd chweched cylch o sgyrsiau ar delerau'r Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE ar 9-10 Tachwedd 2017.

Ar 17 Tachwedd 2017 rhoddodd David Davis ddiweddariad ar y trafodaethau gyda'r Undeb Ewropeaidd gerbron Tŷ'r Cyffredin.

Ar 29 Tachwedd 2017, yng Nghynhadledd Diogelwch Berlin, dywedodd Michel Barnier, prif negodwr yr UE nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud eto i symud ymlaen i ail gam y trafodaethau.

Ar 4 Rhagfyr 2017, cyfarfu Theresa May, Prif Weinidog y DU â Jean-Claude Juncker, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, ym Mrwsel.

Ar 5 Rhagfyr 2017 dywedodd **David Davis, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** wrth Dŷ'r Cyffredin fod y ddwy ochr yn agos at gwblhau cam cyntaf y trafodaethau.

Ar 8 Rhagfyr 2017, cytunwyd mewn egwyddor ar y tri mater blaenoriaeth yng ngham un (hawliau dinasyddion, setliad ariannol a Gogledd Iwerddon). Cyhoeddwyd **adroddiad ar y cyd** gan Jean-Claude Juncker a Theresa May, a oedd yn nodi dealltwriaeth gyffredin o ran cytundeb ar ymadael yn y dyfodol. Mae'r adroddiad ar y cyd yn sail yr oedd y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop yn argymell y dylai'r Cyngor Ewropeaidd ddod i'r casgliad bod cynnydd digonol wedi bod yn y trafodaethau.

Ar 8 Rhagfyr 2017 cyhoeddwyd **gohebiaeth oddi wrth y Comisiwn i'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50)** ar y sefyllfa o ran cynnydd y trafodaethau hefyd. Rhoddodd yr ohebiaeth hon asesiad y Comisiwn Ewropeaidd i'r Cyngor fod digon o gynnydd wedi'i wneud o gofio ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr.

Ar 11 Rhagfyr 2017 gwnaeth Theresa May, y Prif Weinidog **ddatganiad** yn Nhŷ'r Cyffredin ar yr Adroddiad ar y Cyd ac ar asesiad y Comisiwn bod digon o gynnydd wedi'i wneud.

Ar 13 Rhagfyr 2017 mabwysiadodd yr Aelodau o Senedd Ewrop **ddatrysiad** ar sefyllfa'r trafodaethau gyda'r DU, gan argymell bod yr UE27 yn cytuno i symud i gam dau. Tynnwyd sylw at faterion sydd heb eu datrys hefyd, fodd bynnag.

Ar 15 Rhagfyr 2017 penderfynodd y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) fod 'cynnydd digonol' wedi'i gyflawni ar y materion blaenoriaeth cam cyntaf, ac y gallai'r trafodaethau symud i ail gam y sgyrsiau ar drefniadau trosiannol a pherthynas yr UE a'r DU yn y dyfodol. Ar y sail hon, mabwysiadwyd y canllawiau drafft i symud i'r ail gam.

# 2. Y datblygiadau diweddaraf a'r dogfennau a gyhoeddwyd

## Trafodaethau

Mae'r **adroddiad ar y cyd** ar drafodaethau'r UE a Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr 2017, yn cofnodi'r cynnydd a wnaed yng ngham cyntaf y trafodaethau o dan Erthygl 50, ac yn nodi'r sefyllfa y cytunwyd arni gan y ddwy ochr, yn ddarostyngedig i'r cafeat "na chytunir ar unrhyw beth nes bod popeth yn cael ei gytuno". Mae cytundeb y DU ar yr adroddiad yn amodol ar fod cytundeb cyffredinol o dan Erthygl 50 sy'n cyfrif am y berthynas yn y dyfodol, a bod cytundeb ar gael cyn gynted ag y bo modd yn 2018 ar y trefniadau trosiannol.

O ran **hawliau dinasyddion**, mae'r ddealltwriaeth gyffredin a fynegir yn yr adroddiad ar y cyd yn galluogi dinasyddion yr Undeb a dinasyddion gwledydd y DU, yn ogystal â'u teuluoedd, i barhau i arfer eu hawliau sy'n deillio o gyfraith yr Undeb yn nhiriogaethau'r naill a'r llall, pan fo'r hawliau hynny'n seiliedig ar ddewisiadau bywyd a wnaed cyn y dyddiad y mae'r adroddiad ar y cyd yn ei alw y 'dyddiad penodedig'.

O ran y mater **Iwerddon a Gogledd Iwerddon**, ymrwymodd y DU i warchod gweithrediad a sefydliadau Cytundeb Gwener y Groglith, ac i osgoi ffin galed, gan gynnwys y seilwaith ffisegol neu wiriadau a rheolaethau cysylltiedig. Ymrwymodd y DU hefyd i barchu aelodaeth barhaus Iwerddon o'r Undeb Ewropeaidd, a chadarnhaodd ei ymrwymiad i barhau i weithredu'r Ardal Deithio Gyffredin.

O ran y **setliad ariannol**, cytunodd y Deyrnas Unedig i anrhydeddu ei chyfran o'r holl rwymedigaethau ariannol a wnaed pan oedd yn aelod o'r Undeb, o ran cyllideb yr Undeb Ewropeaidd, Banc Buddsoddi Ewrop, Banc Canolog Ewrop, y Cyfleuster ar gyfer Ffoaduriaid yn Nhwrci, Cronfeydd Ymddiriedolaeth yr UE, asiantaethau'r Cyngor a hefyd y Gronfa Datblygu Ewropeaidd. Mae'r negodwyr hefyd wedi cytuno ar fethodoleg i'w dilyn er mwyn cyfrifo'r swm terfynol. Yn ystod sesiwn Lawn ar 13 Rhagfyr 2017 mabwysiadodd Senedd Ewrop ei **datrysiad** o ran sefyllfa'r trafodaethau gyda'r DU, ac argymhellodd fod yr UE27 yn cytuno i symud i gam dau. Mae'r datrysiad yn nodi na all negodiadau wneud cynnydd yn ystod yr ail gam oni bai bod llywodraeth y DU yn parchu'n llawn yr ymrwymiadau yn yr adroddiad ar y cyd, a'r ffaith eu bod yn cael eu trosi'n llwyr i'r cytundeb ymadael drafft. Mae'r amod hwn hefyd wedi'i gynnwys yng **nghanllawiau'r** Cyngor Ewropeaidd ar gyfer y trafodaethau ail gam a fabwysiadwyd ar 15 Rhagfyr. Roedd datrysiad Senedd Ewrop hefyd yn cyfeirio at nifer o faterion a oedd heb eu datrys o ran ymadawiad y DU o'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys:

*- ymestyn hawliau dinasyddion i bartneriaid yn y dyfodol,*

*- sicrhau bod y weithdrefn weinyddol yn ysgafn, yn ddatganiad o ran ei natur ac yn ddi-dâl, a'i fod yn rhoi'r baich prawf ar awdurdodau'r DU i herio'r datganiad, a galluogi teuluoedd i gychwyn y weithdrefn drwy gyfrwng un ffurflen,*

*- yn darparu ar gyfer cymeriad rhwymol penderfyniadau CJEU mewn perthynas â dehongli darpariaethau o ran hawliau dinasyddion, yn ogystal ag ar gyfer rôl awdurdod cenedlaethol annibynnol (ombwdsmon) yn y dyfodol, a grëir i weithredu o ran cwynion dinasyddion,*

*- gwarantu hawliau symud yn rhydd ar draws yr UE gyfan yn y dyfodol ar gyfer dinasyddion y DU sy'n preswylio ar hyn o bryd mewn Aelod-wladwriaeth yr UE-27,*

*- sicrhau bod yr ymrwymiadau a wnaed mewn perthynas â Gogledd Iwerddon / Iwerddon yn gwbl orfodadwy.*

Mabwysiadwyd **canllawiau** ar gyfer ail gam y trafodaethau gan y Cyngor Ewropeaidd ar 15 Rhagfyr. O ran trefniadau trosiannol, mae'r Cyngor Ewropeaidd "yn cytuno i negodi ar gyfnod trosiannol sy'n cwmpasu caffael yr UE cyfan, tra na fydd y Deyrnas Unedig, fel trydedd wlad, yn cymryd rhan nac yn enwebu neu'n ethol aelodau o sefydliadau'r UE mwyach, na chymryd rhan wrth wneud penderfyniadau cyrff, swyddfeydd nac asiantaethau'r Undeb." Mae'r canllawiau hefyd yn datgan y bydd holl offerynnau a strwythurau gorfodaeth rheoleiddiol, cyllidebol, goruchwylio, barnwriaethol a gorfodaeth yr Undeb sy'n bodoli eisoes yn berthnasol hefyd, gan gynnwys cymhwysedd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd". Hefyd, o ganlyniad i gyfranogiad parhaus yn yr Undeb Tollau a'r Farchnad Sengl yn ystod y cyfnod trosiannol, bydd yn rhaid i'r DU barhau "i gydymffurfio â pholisi masnach yr Undeb Ewropeaidd, i gymhwyso tariff tollau yr Undeb Ewropeaidd a chasglu trethi tollau yr UE, a sicrhau bod pawb yn cyflawni gwiriadau'r UE ar y ffin â thrydydd gwledydd eraill." Mae hyn yn golygu y bydd y DU yn gadael yr UE yn ffurfiol ar 29 Mawrth 2019 ac ni fydd yn gallu cymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau yr UE ond bydd yn parhau i fod yn rhwym gan gyfraith yr UE fel pe bai'n Aelod-wladwriaeth.

Yn ôl **llinell Amser** Brexit y Comisiwn, mae angen cwblhau'r trafodaethau erbyn hydref 2018 er mwyn caniatáu i'r DU ymadael â'r UE erbyn diwedd mis Mawrth 2019, gan fod y cytundeb ymadael arfaethedig yn gofyn am ganiatâd Senedd Ewrop.

Ar 20 Rhagfyr 2017 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gyfres o **gyfarwyddebau trafod** ar gyfer ail gam y trafodaethau, sy'n ategu'r gyfres gyntaf a fabwysiadwyd ar 22 Mai 2017. Yn ôl y cyfarwyddebau trafod, ni ddylai'r trefniadau trosiannol barhau yn hwy na 31 Rhagfyr 2020.

Ar 8 Ionawr 2018 penodwyd David Lidington y cyn-Ysgrifennydd Cyfiawnder yn Weinidog dros Swyddfa'r Cabinet.

Ar 16 Ionawr 2018 dywedodd **Donald Tusk y Llywydd** wrth Senedd Ewrop fod angen mwy o eglurder o ran gweledigaeth y DU ar gyfer cysylltiadau yn y dyfodol.

Ar 16 Ionawr 2018 trafododd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad Pwyllgor Dethol yr UE, **Brexit: Deal or no Deal**. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r effaith bosibl ar y DU o adael yr UE heb fargen, ac yn edrych yn fanwl ar ddichonoldeb cyfnod trosiannol yn union ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

## Deddfwriaeth y DU

Ar 7 Tachwedd 2017, cyflwynwyd y **Bil Masnach** gerbron Tŷ'r Cyffredin. Pasiodd y Bil ei ail ddarlleniad ddydd Mawrth 9 Ionawr 2018 ac mae ar hyn o bryd yn y Cyfnod Pwyllgorau. Mae'r **Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol)** hefyd yn y cyfnod pwyllgor. Ynghyd â'r Bil Masnach, bwriedir i'r Bil ganiatáu i'r DU barhau â'i pholisi masnach presennol cyhyd ag y bo modd ar unwaith ar ôl i'r DU adael yr UE, drwy ganiatáu i'r Llywodraeth greu cyfundrefn tollau, TAW a chyllid ar gyfer y DU. Ar 17 Ionawr 2018 cwblhaodd **y Bil Sancsiynau a Gwrth-Wyngalchu Arian**, sy'n angenrheidiol i sicrhau y gall y DU weithredu cosbau rhyngwladol ar ôl ymadael â'r UE, ei gyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Ar 14 Tachwedd, dechreuodd cyfnodau pwyllgor Bil yr UE (Ymadael) yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r Bil yn diddymu Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972; yn darparu na fydd cyfraith yr UE bellach yn gymwys yn y DU; ac yn trosi'r mwyafrif o gyfreithiau presennol yr Undeb Ewropeaidd yn gyfraith ddomestig. Cyflwynwyd mwy na 400 o welliannau a 90 cymal newydd, ac fe'u hystyriwyd gan Bwyllgor o'r Tŷ Cyfan dros gyfnod o wyth diwrnod.

Cyhoeddodd David Davis AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 13 Tachwedd 2017, unwaith y ceir cytundeb o ran ymadawiad y DU o'r UE, y bydd deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei chyflwyno i weithredu'r cytundeb. Bydd Bil y Cytundeb ar Ymadael a'i Weithredu yn darparu "y bydd y prif bolisïau a nodir yn y cytundeb ymadael yn cael eu gweithredu'n uniongyrchol i gyfraith y DU drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, ac nid drwy is-ddeddfwriaeth o dan y Bil ymadael".

Ar 13 Rhagfyr 2017 derbyniwyd gwelliannau i'r Bil Ymadael, a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Gweithdrefnau i sefydlu pwyllgor sifftio yn Nhŷ'r Cyffredin i ystyried a ddylai rheoliadau a wnaed o dan y Bil fod yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol. Derbyniwyd hefyd welliant gan y Llywodraeth a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y Goron wneud datganiadau esboniadol mewn perthynas â rheoliadau neu reoliadau drafft o dan y Bil.

Ar 13 Rhagfyr 2017, derbyniwyd gwelliant Dominic Grieve, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cytundeb olaf gyda'r UE gael ei gymeradwyo gan statud. O ganlyniad, collodd Llywodraeth y DU ei phleidlais gyntaf ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Ar ddiwrnod olaf y cyfnod pwyllgor ar 20 Rhagfyr, pasiwyd gwelliant Llywodraeth y DU a oedd yn pennu mai'r diwrnod ymadael fyddai "29 Mawrth 2019 am 11.00pm". Fodd bynnag, cyflwynodd Aelodau Seneddol o'r meinciau cefn welliant mewn ymateb a fyddai'n caniatáu i weinidogion ddefnyddio pwerau dirprwyedig i newid amser a dyddiad y diwrnod ymadael os bydd y DU yn y pen draw yn gadael yr UE ar ddyddiad gwahanol i'r un a bennir. Derbyniodd Llywodraeth y DU hyn.

## Dogfennau a Phapurau Sefyllfa

Ers cyhoeddi'r adroddiad monitro diwethaf, mae'r UE a Llywodraeth y DU wedi dod i gytundeb mewn egwyddor o ran y meysydd a oedd yn cael eu hystyried yn ystod cam cyntaf y trafodaethau.

**Tabl 1 Papurau Sefyllfa a dogfennau allweddol a gyhoeddwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'r DU**

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Essential Principles on Citizens Rights**<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Yn amlinellu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd ar hawliau dinasyddion y DU yn yr Undeb Ewropeaidd a hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y DU. | **Safeguarding the position of EU citizens in the UK and UK nationals in the EU: Position Paper**<br>**26 Mehefin 2017** | Yn amlinellu sefyllfa'r DU ar yr hawliau y dylai dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd eu cael yn y DU a'r hawliau y dylai gwladolion y DU eu cael yn yr Undeb Ewropeaidd. Gweler blog y Gwasanaeth Ymchwil i gael rhagor o fanylion. |
| **Essential Principles on the financial settlement**<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer methodoleg y dylid cytuno arni yn ystod negodiadau Cam 1 ar sut y dylid cyfrifo rhwymedigaethau ariannol y DU i'r Undeb Ewropeaidd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o asiantaethau, cyrff ac offerynnau ariannol i'w cynnwys yn y fethodoleg. | Dim | Mae Ysgrifennydd Gwladol y DU ar gyfer DEXEU wedi amlinellu y bydd y DU yn cwestiynu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd yn hytrach nag amlinellu ei sefyllfa ei hun. |
| **Nuclear material and safeguard equipment (Euratom)**<br>23 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer trin a throsglwyddo perchnogaeth deunyddiau ymholltog arbennig. Mae'n cwmpasu llai o feysydd nag a gynigiwyd gan y DU mewn papur cyfatebol. | **Nuclear material and safeguards issues.** | Mae Llywodraeth y DU yn nodi chwe egwyddor y mae am i'r negodiadau ar y materion hyn eu cyflawni. Mae'n cynnwys meysydd ychwanegol at y meysydd a gaiff eu cynnwys gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys contractau cyfredol ar gyfer cyflenwi deunydd niwclear |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | a gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol. Mae'r DU yn nodi y dylai gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol barhau i fod yn gyfrifoldeb y Wladwriaeth lle y cawsant eu cynhyrchu ar ôl ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. |
| **Judicial cooperation in civil and commercial matters**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael. | **Providing a cross-border civil judicial framework: a future partnership paper**<br>22 Awst 2017 | Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei sefyllfa ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn gymwys i achosion sy'n aros am ddedfryd ar yr adeg y bydd y DU yn ymadael, a chynigion ar gyfer cydweithredu parhaus yn y maes hwn mewn un papur. Mae'r papur yn nodi bod Atodiad A yn ymateb yn uniongyrchol i bapur yr Undeb Ewropeaidd ac yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth y DU os na chytunir ar y bartneriaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi nad dim cytundeb ar gydweithredu yn y dyfodol yw ei ddewis. Mae'r papur yn nodi hefyd y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dod ag |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop i ben, ond y bydd y DU yn ceisio dod i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn caniatáu cydweithredu barnwrol sifil trawsffiniol clos a chynhwysfawr. |
| **Ongoing Police and Judicial cooperation in criminal matters**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a fydd yn cymhwyso gweithdrefnau parhaus fel, gorchmynion ymchwilio Ewropeaidd a gweithdrefnau Gwarantau Arestio Ewropeaidd ar y dyddiad y bydd y DU yn ymadael, a sut y bydd y wybodaeth a geir drwy'r gweithdrefnau hyn yn cael ei thrin. | **Security law enforcement and criminal justice: Future Partnership Paper** | Mae Atodiad A o'r papur yn darparu ymateb uniongyrchol i'r materion a godwyd gan yr Undeb Ewropeaidd yn ei bapur yntau. Fodd bynnag, mae'r DU yn argymell y dylid cynnal trafodaethau ar faterion troseddol a fydd yn codi yn sgîl ymadael yng nghyd-destun trafodaethau ar bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn galw am berthynas ddyfnach a chydweithrediad ar faterion yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd na'r hyn sydd gan yr Undeb Ewropeaidd gyda gwledydd trydydd parti ar hyn o bryd. Noda y dylid ei ddarllen ar y cyd â phapurau eraill ar y bartneriaeth |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | yn y dyfodol yn ymwneud â diogelwch a diogelu data. |
| **Ongoing Union and Judicial Procedures**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu'r cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop sy'n ymwneud â'r DU neu drigolion/personau cyfreithiol y DU ar adeg ymadael, a chynigion ar gyfer gweithdrefnau gweinyddol parhaus o ran sefydliadau'r Undeb, cyrff, swyddfeydd ac asiantaethau sy'n ymwneud â'r DU neu drigolion/personau cyfreithiol y DU. Cynigiodd yr UE y dylai'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd gadw rhywfaint o gymhwysedd i ddyfarnu mewn achosion a ddygir yn erbyn y DU ar ôl iddi ymadael sy'n ymwneud â materion a ddigwyddodd pan oedd y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth. | **Ongoing union judicial and administrative proceedings: Position Paper**.<br>**13 Gorffennaf 2017** | Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd rhai achosion yn aros am ddedfryd ar yr adeg y bydd yn ymadael a ddylai barhau i ddod o fewn awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop, ac mae'n ceisio cael cytundeb ar feini prawf ynghylch y diffiniad o 'aros am ddedfryd'. Mae hefyd yn gofyn am eglurhad o rôl Eiriolwr Cyffredinol y DU a chyfreithwyr y DU yn y Llys yn ystod cyfnod trosiannol tra bod achosion yn dal i aros am ddedfryd. Nid yw'n cytuno y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw rhywfaint o gymhwysedd dros achosion a ddygwyd ar ôl y dyddiad ymadael yn ymwneud â phethau a ddigwyddodd cyn y dyddiad ymadael. |
| **Issues relating to the functioning of EU Institutions, Agencies and Bodies**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi sefyllfa'r UE ar ba amddiffyniadau ac imiwneddau a fydd yn berthnasol i sefydliadau ac asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU ar ôl iddi | **Privileges and Immunities**<br>**13 Gorffennaf 2017** | Mae papur sefyllfa'r DU yn cytuno y dylid cynnig amddiffyniadau ac imiwneddau i eiddo, asedau a gweithrediadau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU am |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | ymadael tra bod gweithgareddau cyrff yr Undeb Ewropeaidd yn y DU yn cael eu dirwyn i ben. | | gyfnod trosiannol ar ôl iddi ymadael. Mae negodwyr ar y ddwy ochr wedi nodi eu bod yn agos at gyrraedd cytundeb ar y mater hwn. |
| **Governance**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau ar gyfer y Cytundeb Ymadael, gan gynnwys sefydlu Cyd-bwyllgor i ystyried anghydfodau. Dywed y dylai'r Cyd-bwyllgor gyfeirio achosion at Lys Cyfiawnder Ewrop am benderfyniadau rhwymol pan na ellir dod i gytundeb yn y Pwyllgor. Noda y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd gadw pwerau llawn ar gyfer monitro a gweithredu'r cytundeb ar hawliau dinesydd. | **Enforcement and Dispute resolution: Future Partnership Paper**<br><br>**23 Awst 2017** | Mae'r Papur yn cynnwys cynigion ar gyfer mecanwaith gorfodi a datrys anghydfodau newydd ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn nodi y bydd angen mecanwaith newydd gan y bydd awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben. Safbwynt y DU yw, pan fo'r Cytundeb Ymadael neu unrhyw drefniadau partneriaeth yn y dyfodol yn arwain at hawliau neu rwymedigaethau ar gyfer unigolion a busnesau sy'n gweithredu yn y DU, bydd y rhain yn dod i rym yng nghyfraith y DU ac yn cael eu gorfodi gan lysoedd y DU. Mae'r papur sefyllfa yn dadlau nad oes cynsail na gorfodaeth yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd na'r DU sy'n |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | datgan bod yn rhaid i orfodi neu ddatrys anghydfod ddod o dan awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop. |
| **Goods placed on the market under Union law before the withdrawal date**<br>29 Mehefin 2017 i'r UE<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi'r cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn gymwys i nwyddau sy'n cydymffurfio â holl reolau'r Undeb ac yn cael eu rhoi ar y farchnad i'w gwerthu cyn y dyddiad ymadael ond nad ydynt wedi'u gwerthu ar y dyddiad ymadael. | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK**<br>**21 Awst 2017**<br><br>**Future customs arrangements: Future Partnership Paper**<br>**15 Awst 2017** | Mae Llywodraeth y DU yn datgan y dylid datrys y mater hwn o ran unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r DU yn gofyn am drafodaeth bellach ar ystyr "rhoi ar y farchnad" ac mae'n awgrymu y dylai gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau. |
| **Customs related matters needed for an orderly withdrawal of the UK from the Union**<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau tollau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau y mae eu symudiad wedi dechrau cyn y dyddiad ymadael ond sy'n dod i ben ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny. | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper**<br>**21 Awst 2017**<br>**Future customs arrangements: Future Partneriaeth Paper**<br>**15 Awst 2017** | Mae papur sefyllfa'r DU ar barhad argaeledd nwyddau yn cydnabod y bydd angen mynd i'r afael â materion tollau sy'n ymwneud â nwyddau ar y farchnad ar adeg ymadael, ond mae'n gwneud hynny mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer perthynas dollau yn y dyfodol ac yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r mater drwy drafodaethau am bartneriaeth yn y dyfodol. |
| **Guiding Principles transmitted to EU 27 for the Dialogue on Ireland/Northern** | Egwyddorion sy'n sail i drafodaethau am y berthynas rhwng Iwerddon a Gogledd | **Northern Ireland and Ireland: Position Paper**<br>16 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn nodi y dylai'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng Iwerddon a'r DU barhau, y |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Ireland.**<br>7 Medi i EU 27 | Iwerddon. Ni chynigir unrhyw ddatrysiadau ar gyfer ffin Iwerddon ac mae'r papur yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y DU i gynnig atebion. | | dylid gwneud cynnydd cyflym ar y mater ac na effeithir ar hawliau dinasyddion yr UE yn Iwerddon gan barhad yr Ardal Deithio Gyffredin. Nid yw'r papur yn cynnig opsiynau penodol ar gyfer y ffiniau tir ond mae'n nodi egwyddorion i brofi modelau yn eu herbyn. Mae'n croesgyfeirio at gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trefniadau tollau yn y dyfodol. Noda na ddylai unrhyw ateb y cytunir arno ei gwneud yn ofynnol i gael ffiniau tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Gwna gynigion penodol ar gynhyrchion bwyd-amaeth. Awgryma y dylid cael cytundeb i barhau â chyllid PEACE ar gyfer Gogledd Iwerddon a siroedd ffiniol Iwerddon. |
| **Public Procurement**<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ar gyfer y rheolau a'r gweithdrefnau ar gaffael cyhoeddus a ddylai fod yn gymwys i weithdrefnau caffael a chontractau sy'n parhau ar y dyddiad ymadael. | Dim | |

| **Papur yr Undeb Ewropeaidd** | **Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd** | **Papur y DU** | **Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Intellectual Property Rights (including geographical indications)**<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cynigion ar gyfer parhau i ddiogelu hawliau eiddo deallusol y cytunwyd arnynt cyn y dyddiad ymadael, gan gynnwys diogelu enwau bwyd gwarchodedig. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn awgrymu y bydd angen i ddeddfwriaeth ddomestig newydd gael ei sefydlu yn y DU cyn y dyddiad ymadael mewn perthynas ag enwau bwyd gwarchodedig. | Dim | |
| **Use of Data and Protection of Information Obtained or Processed before the Withdrawal Date**<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ynglŷn â'r rheolau a'r amddiffyniadau cyfatebol a ddylai fod yn berthnasol i ddata a gedwir neu a brosesir yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl y dyddiad ymadael. | **Confidentiality and access to documents: Position Paper 21 Awst 2017** | Mae'r papur yn nodi mai'r nod ddylai fod i'r Cytundeb Ymadael sicrhau bod gan y DU a'r Undeb Ewropeaidd amddiffyniadau a rhwymedigaethau cyfatebol ar wybodaeth a mynediad at ddogfennau fel sy'n bodoli ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | **Future Customs Arrangements: Future partnership paper**<br>15 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn cynnig dau ddewis posibl ar gyfer perthynas dollau yn y dyfodol. Trefniant tollau wedi'i symleiddio'n sylweddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd neu bartneriaeth tollau newydd |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | gyda'r Undeb Ewropeaidd lle byddai'r DU yn cysoni ei ffin â'r Undeb Ewropeaidd mewn ffordd sy'n golygu y byddai'n dileu'r angen am ffiniau tollau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Byddai'r DU yn gadael yr undeb tollau ac yn gallu negodi ei chytundebau masnach ei hun o dan y ddau opsiwn.<br>O dan yr ail opsiwn, mae'r papur sefyllfa yn cynnig y byddai'r DU yn adlewyrchu gofynion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer nwyddau o weddill y byd os mai'r Undeb Ewropeaidd yw'r gyrchfan derfynol. Noda y byddai hyn yn ddigynsail a gallai fod yn heriol i'w weithred, ond mae am ei drafod â'r Undeb Ewropeaidd.<br>Mae'r papur yn cynnig model cyfyngedig o ran amser ar gyfer cysylltiad agos ag undeb Tollau yr Undeb Ewropeaidd am gyfnod trosiannol, er mwyn osgoi sefyllfa 'ymyl clogwyn' i fusnesau ac unigolion ar y ddwy ochr. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Dim | | The exchange and protection of personal data: Future partnership paper<br>24 Awst 2017 | Yn amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer model newydd o ran cyfnewid a diogelu data personol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd, yn seiliedig ar ddull cyfredol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n awgrymu y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth barhau i gydweithio â rheoleiddwyr yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | Collaboration on Science and innovation: Future partnership paper<br>6 Medi 2017 | Mae'n amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cytundeb gwyddoniaeth ac arloesi gyda'r UE. Noda y dylai'r cytundeb fod yn eang a galluogi meysydd ymchwil newydd. Noda y bydd angen negodi mynediad parhaus y DU i raglenni ymchwil ac arloesi'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd â maint unrhyw gyfraniad ariannol y byddai'n rhaid i'r DU ei wneud i gymryd rhan ynddynt. Mae'n nodi y byddai angen cydbwyso'r cyfraniad hwn â blaenoriaethau gwariant eraill Llywodraeth y DU. Cyfeirir at gyfranogiad |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | Prifysgolion Cymru mewn rhaglenni a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes. |
| Dim | | **Foreign Policy, defence and development: Future partnership paper** 12 Medi 2017 | Mae'r papur yn cynnig partneriaeth yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd ar ddiogelwch ac amddiffyniad sy'n ehangach nag unrhyw gytundeb sydd gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd gyda gwlad trydydd parti. Mae'n nodi'r meysydd lle mae cydweithrediad ar amddiffyniad, diogelwch a datblygiad rhyngwladol ar hyn o bryd. |
| Dim | | **Customs Bill White Paper: legislating for UK's future customs, VAT and excise regimes** 9 Hydref 2017 | Mae'r **Papur Gwyn ar y Bil Tollau** yn nodi cynigion cychwynnol Llywodraeth y DU ar gyfer system annibynnol ar gyfer tollau tramor, TAW a thollau cartref ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer senario wrth gefn os na ddeuir i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd ar berthynas fasnachol ar gyfer y dyfodol. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Dim | | **Preparing for our future UK trade policy**<br>9 Hydref 2017 | Mae'r **papur gwyn ar y polisi masnach** yn nodi'r safbwyntiau a ffefrir gan Lywodraeth y DU ar gyfer polisi masnach newydd, ac yn nodi pa ddeddfwriaeth fydd ei hangen i weithredu'r polisi hwnnw. Mae'r papur yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer polisi masnachu newydd. |
| **European Council Conclusions** – casgliadau'r Cyngor ar y cynnydd a wnaed o ran y trafodaethau<br>20 Hydref 2017 | Daeth y Cyngor i'r casgliad na wnaed digon o gynnydd yn y trafodaethau ar y Cytundeb Ymadael i ddechrau ar drafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol. Rhoddodd fanylion am ble y mae angen rhagor o gynnydd. Nododd hefyd y byddai paratoadau mewnol rhwng y 27 Aelod-wladwriaeth sy'n weddill ar gyfer trafodaethau ar berthynas fasnachol yn y dyfodol yn dechrau. | Dim | |
| Dim | | **Sanctions and Anti-Money Laundering Bill**<br>19 Hydref | Ystyrir bod y Bil yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall y DU weithredu trefn sancsiynau ryngwladol yn dilyn ei hymadawiad o'r UE. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Dim | | **Technical Note: citizen's rights administrative procedures in the UK -**<br>7 Tachwedd | Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o fanylion ynghylch sut y bydd y system ar gyfer gwneud cais am breswyliaeth barhaol yn y DU ar gyfer dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn gweithio. Anfonwyd hwn fel papur technegol at y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Dim | | **Trade Bill 2018**<br>7 Tachwedd | Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Gweinidog wneud newidiadau i gyfraith ddomestig y DU i weithredu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael y Llywodraeth, ac unrhyw newidiadau angenrheidiol os bydd y DU yn dyblygu rhai o gytundebau presennol yr UE â gwledydd trydydd parti. Mae hefyd yn darparu camau i sefydlu Awdurdod Cymhorthion Masnach newydd, ac mae'n rhoi pwerau a dyletswyddau newydd mewn cysylltiad â data a gwybodaeth i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi o ran allforio a masnach. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Joint Report** gan negodwyr yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar gynnydd yn ystod Cam 1 o drafodaethau o dan EUU Erthygl 50 ar ymadawiad trefnus y DU o'r UE<br>8 Rhagfyr 2017 | Daeth yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU i gytundeb mewn egwyddor ar y meysydd o dan ystyriaeth yn ystod cam cyntaf y trafodaethau, gan alluogi sgyrsiau i symud i'r cam nesaf. Mae'r adroddiad yn nodi'r sefyllfa y cytunwyd arni ar amddiffyn hawliau dinasyddion yr Undeb yn y DU a dinasyddion y DU yn yr Undeb; y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw yng Ngogledd Iwerddon; a'r setliad ariannol. | **Adroddiad ar y Cyd**<br>8 Rhagfyr 2017 | |
| **Nodyn Cyfathrebu gan y Comisiwn i'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50)** ar y sefyllfa o ran cynnydd y trafodaethau gyda'r DU o dan Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd<br>8 Rhagfyr 2017 | Yn seiliedig ar yr Adroddiad ar y Cyd gan negodwyr yr UE a Llywodraeth y DU, argymhellodd y Comisiwn wrth y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) y dylai ddod i gasgliad bod cynnydd digonol wedi'i wneud yng nghyfnod cyntaf y trafodaethau. | | |
| Dim | | **Prime Minister's Commitments to Northern Ireland**<br>8 Rhagfyr 2017 | Nododd y Prif Weinidog Theresa May chwe ymrwymiad allweddol i Ogledd Iwerddon a oedd yn ei harwain yn y trafodaethau â'r UE. |
| **Canllawiau y Cyngor Ewropeaidd** | Yn dilyn y penderfyniad bod digon o gynnydd wedi'i wneud, | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| 15 Rhagfyr 2017 | cyhoeddodd y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ganllawiau drafft i symud i ail gam y trafodaethau, pan drafodir y cyfnod trosiannol a'r fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. | | |
| **Supplementary negotiating directives**<br>20 Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddebau atodol ar gyfer trafod cytundeb â'r DU sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ei hymadawiad o'r UE. | Dim | |

# 3. Materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

Bydd ail gam y trafodaethau o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Allanol, yn enwedig y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Yn ddiweddar, lansiodd y Pwyllgor ymchwiliad i **berthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol**. Mewn **datganiad ysgrifenedig** ar 11 Rhagfyr 2017 dywedodd Prif Weinidog Cymru ei bod yn hollbwysig bod y gweinyddiaethau datganoledig yn "ymwneud yn llawn ac yn briodol" yn sgyrsiau cam 2, gan nodi:

> *Bydd trafodaethau'r ail gam yn cynnwys materion sy'n rhan o gyfrifoldebau'r sefydliadau datganoledig, fel cyfrannu at raglenni Ewropeaidd yn ystod y cyfnod pontio, cymryd rhan mewn rhaglenni fel Horizon 2020 ac Erasmus+ ar ôl Brexit ac i ba raddau y bydd pwerau datganoledig yn cydweddu â rheoliadau UE fel rhan o gytundeb yn y dyfodol rhwng y DU a'r UE.*

O ran y Bil Ymadael, bydd tynged Cymal 11 a chymalau eraill ynghylch datganoli o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor. Cyn y pumed diwrnod o ddadl y Cyfnod Pwyllgor ar y Bil, cyhoeddwyd y byddai gwelliannau yn cael eu cyflwyno i Gymal 11 yn y Cyfnod Adrodd. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd dim gwelliannau i Gymal 11 gan Lywodraeth y DU yn y cyfnod hwn. Dywedodd y **Prif Weinidog** wrth Dŷ'r Cyffredin ddydd Mercher 10 Ionawr 2018:

> *The right hon. gentleman knows full well that we have said we will look to improve clause 11 […] However, as I discussed with the First Minister before Christmas, we are looking to work with the devolved Administrations to ensure that we put the right frameworks in place so that, when we come to bring forward any amendment, it is done in the best possible way in the interests of all concerned. I thought that had been accepted by the Scottish National party, but we will be looking to bring forward amendments in the Lords.*

Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ar gyfer eu hystyried yn y Cyfnod Adrodd nad oedd yn cynnwys gwelliant i Gymal 11. O ran darpariaethau ynghylch datganoli, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i Gymal 10 i newid y gofyniad i Weinidogion Cymru ofyn am ganiatâd Llywodraeth y DU i arfer y pŵer cywiro i ofyniad ymgynghori, a hefyd i alluogi Gweinidogion Cymru i gywiro diffygion mewn cyfraith yr UE a gadwyd yn uniongyrchol, ond dim ond mewn meysydd lle nad oes angen fframwaith cyffredin. Hefyd, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i Gymal 7 i gyfyngu ar gwmpas pwerau gweinidogion o ran cyfraith yr UE a gadwyd, drwy wneud y rhestr o ddiffygion yn y Bil yn gynhwysfawr yn hytrach nag yn ddarluniadol. Derbyniwyd y gwelliannau hyn yn y Cyfnod Adrodd.

Gwrthodwyd gwelliant y gwrthbleidiau a oedd yn dileu cyfyngiadau arfaethedig y Bil yng Nghymal 11 ar allu y deddfwrfeydd datganoledig i ddeddfu ar faterion datganoledig, a hefyd i greu gweithdrefnau cydweithredol newydd ar gyfer creu fframweithiau ledled y DU ar gyfer cyfraith yr UE a gedwir yn adran 297 - 321.

Daeth Cyfnod Adrodd y Bil i'r ben ar 17 Ionawr 2018. Cymeradwywyd y Bil gan Dŷ'r Cyffredin ar y Trydydd Darlleniad, a bydd nawr yn mynd gerbron Tŷ'r Arglwyddi.

# 4. Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar 11 Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru **ddatganiad ysgrifenedig** a oedd yn croesawu'r cynnydd a wnaed o ran cam un y trafodaethau. Dywedodd, "Cymerwyd mwy o amser na'r

angen i sicrhau'r cytundeb hwn, yn sgil diffyg eglurder ac agwedd afrealistig Llywodraeth y DU". Dywedodd Prif Weinidog Cymru hefyd ei bod yn hollbwysig bod y gweinyddiaethau datganoledig yn "ymwneud yn llawn ac yn briodol" yn sgyrsiau cam 2, gan nodi:

> *Mae'n hanfodol i'r Gweinyddiaethau Datganoledig gael eu cynrychioli'n uniongyrchol yn y trafodaethau hyn. Rydym wedi codi'r mater sawl gwaith gyda Llywodraeth y DU, ac mae'n bryd iddyn nhw weithredu. Fel y gwelwyd, mae'n hanfodol i safbwynt negodi'r Deyrnas Unedig adlewyrchu gwir fuddiannau Cymru a'r Deyrnas Unedig yn gyfan.*

Mewn perthynas â chytundeb cam un dywedodd **Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid** ar 13 Rhagfyr 2017:

> *Mae Llywodraeth Cymru'n falch bod y DU a'r UE yn derbyn y rhesymeg dros gyfnod pontio ar ôl i'r DU ymadael yn swyddogol â'r UE. Unwaith eto mae hwn yn safbwynt yr ydym wedi dadlau drosto yn gyson, er ein bod o'r farn mai camgymeriad yw cyfyngu'n artiffisial ar hyn i gyfnod o ddwy flynedd. Rydym yn credu, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, y bydd trafodaethau manwl ar fasnach yn cymryd yn hwy ac mai creu cymaint o sicrwydd i fusnes â phosibl ddylai yrru'r cyfnod pontio. Rydym yn credu ymhellach fod perygl i'r DU gael ei rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol mewn negodiadau os caiff ei chlymu i ddyddiad pontio anhyblyg.*

Ar 12 Rhagfyr 2017 roedd **Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid** yn bresennol yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor Gweinidogion (Negodi Ewropeaidd) yn Llundain. Yn ôl y **Nodyn Cyfathrebu** a gyhoeddwyd ar ôl y cyfarfod:

> *The Chair opened the meeting by summarising the engagement and political developments that had taken place since JMC(EN) last met. The Secretary of State for Exiting the EU provided an update on negotiations with the EU and the Committee looked forwards to the December European Council and discussion on the future relationship with the European Union.*
>
> *An open discussion was held on matters relating to migration, led by the Minister of State for Immigration, in which the devolved administrations engagement with the Migration Advisory Committee was noted. The committee discussed progress on frameworks and priorities moving forwards.*

Yn ystod y cyfarfod hwn pwysleisiodd **Ysgrifennydd y Cabinet** fod Llywodraeth Cymru "wedi ymrwymo o hyd i gadw mynediad llawn a dirwystr i'r Farchnad Sengl ac i barhau'n rhan o Undeb Tollau â'r UE".

Yn ei **ddatganiad ysgrifenedig** ar ôl cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Gweinidogion (Negodi Ewropeaidd) dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *Mae cynnydd wedi'i wneud ar fframweithiau'r DU, ac fe groesewais hyn. Cytunwyd ar yr egwyddorion craidd ac mae swyddogion wedi gwneud gwaith cwmpasu defnyddiol. Mynegais bryder, yng ngoleuni rhai awgrymiadau ynghylch ymagweddau gwahanol ar gyfer Gogledd Iwerddon, na all yr ymagwedd hon weithio ond os caiff ei thanategu gan ymrwymiad ar y cyd i ystyried bod y fframweithiau'n*

*rhwymo dros y tymor hwy. Mae cytuno ar brosesau llywodraethu ar gyfer gweithredu, adolygu a diweddaru fframweithiau'n rhan hanfodol o'r gwaith sy'n gorfod digwydd yn awr.*

Ar 14 Rhagfyr 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur polisi ar **Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit** sy'n rhan o'r gyfres o bapurau ar Ddiogelu Dyfodol Cymru. Mae'r papur yn nodi dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisi buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit.

Yn ôl **datganiad ysgrifenedig** Llywodraeth Cymru, mae'r papurau'n defnyddio adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Materion Ychwanegol hwn ar **ddyfodol y polisi rhanbarthol.**

Ymysg cynigion Llywodraeth Cymru mae:

- Symleiddio rheolau, gweinyddiaeth a systemau ar gyfer cronfeydd buddsoddi rhanbarthol.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer rhanbarthau Cymru dan arweiniad partneriaethau sy'n cynnwys awdurdodau lleol, busnesau a chymunedau'r ardaloedd hynny.
- Canolbwyntio buddsoddi rhanbarthol ar yr ardaloedd lle mae angen, yn hytrach na dilyn map artiffisial.
- Cynnal y gallu i ddarparu cymorth gwladwriaethol i fusnesau.
- Pedair llywodraeth genedlaethol y DU yn cytuno ar reolau cymorth rhanbarthol er mwyn osgoi ras i'r gwaelod a allai niweidio cymunedau.
- Creu Cyngor Gweinidogion Economaidd o bob un o'r pedair gwlad er mwyn cydlynu polisïau ar draws y DU.
- Llywodraeth y DU i ychwanegu arian at gyllideb Cymru ar ôl Brexit, yn cyfateb o leiaf i'r £370m y mae'r UE yn ei roi i Gymru ar hyn o bryd ar gyfer datblygu rhanbarthol, heb unrhyw gyfyngiadau na chymryd cyfran ei hun.

Mewn perthynas â Bil yr UE (Ymadael), nododd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol **a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2017, na fyddai'n gallu argymell i'r Cynulliad ei fod yn cydsynio i'r Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd. Wedi hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru welliannau i'r Bil Ymadael** ar y cyd â Llywodraeth yr Alban. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd dim un o'r diwygiadau hyn gan Lywodraeth y DU yn ystod yr wyth niwrnod o gyfnod pwyllgor. Hefyd gwrthodwyd **gwelliannau a awgrymwyd,** a baratowyd gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad i gefnogi **chwe amcan** ar gyfer gwella'r Bil Ymadael yn ystod y cyfnod pwyllgor.

Yn ôl **datganiad ysgrifenedig** gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2017 yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyd-Bwyllgor Gweinidogion (Negodi Ewropeaidd), gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y pwynt eglur:

*that the Welsh Government cannot recommend that the National Assembly gives legislative consent to the EU (Withdrawal) Bill unless issues surrounding the devolved powers of the Welsh Government and National Assembly for Wales are resolved in amendments which should be agreed before the Bill leaves the House of Commons. The UK Government agreed there should be further specific discussion at official level around potential solutions. On 15 December the External Affairs and Additional Legislation and Constitutional and Legislative Affairs committees both published reports on the Withdrawal Bill Legislative Consent Memorandum. Both Committees*

*concluded, at the time of reporting, that the Assembly withhold its consent for the Bill in its current form.*

Ar 10 Ionawr 2018, cyhoeddwyd bod Llywodraeth yr Alban yn debygol o **gyflwyno Bil Parhad ym mis Chwefror** oni bai, a nes, y gwneir newidiadau i'r Bil Ymadael. Mae sefyllfa Llywodraeth yr Alban wedi'i nodi mewn llythyr ar y cyd gan y Gweinidog dros Le yn Ewrop, sef Michael Russell, a'r Gweinidog dros Fusnes Seneddol, Joe Fitzpatrick, at y Llywydd yn Senedd yr Alban, Ken Macintosh.

Byddai Bil Parhad yn darparu dewis arall i Fil yr UE (Ymadael) drwy drosi cyfraith yr UE sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad yn gyfraith Cymru. O ganlyniad, ni fyddai angen Bil Ymadael o ran meysydd polisi datganoledig yng Nghymru.

Wrth i'r Bil Ymadael ddechrau'r Cyfnod Adrodd ar 16 Ionawr 2018, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru **ddatganiad ysgrifenedig** gan nodi:

> *Rydym yn gresynu nad yw'r Llywodraeth, er gwaethaf ymrwymiad Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, wedi cyflwyno unrhyw welliant i Gymal 11 sydd, fel y mae ar hyn o bryd, yn gwbl annerbyniol i ni.*

Daeth Prif Weinidog Cymru i'r casgliad, pe na bai trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn arwain at gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i'r Bil Ymadael, ei fwriad yw cyflwyno Bil Parhad Llywodraeth Cymru i'r Llywydd cyn diwedd Ionawr 2018. Ar 17 Ionawr 2018, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol ar gynnig i nodi cynigion ar gyfer Bil Parhad Cymreig.

Cyflwynwyd gwelliannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i Gymal 11 i'r Bil eto yn ystod y cyfnod adrodd, ond ni chawsant eu galw.